**Swyddfa'r Cyngor ● Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog ● Heol Wynne ●**
**Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF**
**01766 832 398 clerc@cyngortrefffestiniog.cymru**

# AGENDA Cyfarfod Arferol

**● 7pm – 10 / 02 / 2025 ● Siambr y Cyngor ac ar-lein**

---

## Siambr y Cyngor ac Ar-lein

**DEDDF CYRFF CYHOEDDUS (MYNEDIAD I GYFARFODYDD) ADRAN 1(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ATODLEN 12 PARAGRAFF 26(2) [A] NODER – mi fydd Cyngor Tref Ffestiniog yn cwrdd ar-lein drwy feddalwedd Zoom, fel y caniateir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 YN UNOL Â GOFYNION Y DARPARIAETHAU STATUDOL UCHOD HYSBYSIR TRWY HYN Y CYNHELIR CYFARFOD MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG**

**Drwy feddalwedd Zoom ar y ddolen ganlynol**

**https://us02web.zoom.us/j/86123714013?pwd=wMKCKw6jK6hypId1O95VwsTzVE5JNA.1**

**Meeting ID: 861 2371 4013**
**Passcode: 668437**

**A hefyd wyneb yn wyneb yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog.**

**NOS LUN 10 CHWEFROR 2025 AM 7.00PM**
**AT GADEIRYDD AC AELODAU CYNGOR TREF FFESTINIOG. FE'CH GWYSIR DRWY HYN I FYNYCHU CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG. MAE HAWL GAN AELODAU'R CYHOEDD I FYNYCHU'R CYFARFOD ONI WNEIR PENDERFYNIAD PRIODOL YN EU HATAL OHONO**

**Noder y bydd y cyfarfod yn cael ei recordio oherwydd yr angen i gofnodi ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben.**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | | **Derbyn Ymddiheuriadau** |
| **2.** | | **Datgan Buddiannau** |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bydd ffurflen Datgan Buddiant Personol angen ei llofnodi yn y cyfarfod neu ei hanfon at y Clerc neu'r Dirprwy Glerc pan yn briodol. |
| **3.** | | **Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. <u>Dalier Sylw:</u> trafodaeth yn unig; ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei ddodi ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.** |
| **4.** | | **Diweddariad gan yr Heddlu**<br>Adrodd ar ateb Iwan Jones, Arolygydd yr Heddlu, ar Dir Garregfilltir, fel a ganlyn:<br><br>*Prynhawn da Sioned,*<br><br>*Diolch am eich amser yn y cyfarfod.*<br><br>*O edrych ar y wybodaeth isod ac i fod yn onest, mae yn edrych na fod llawer o opsiynau ymchwilio yma oni bai eich bod yn ymwybodol fod camerâu yn yr ardal gyfagos? Mae yn edrych fel bod angen cymryd camau diogelwch fel rhoi camerâu neu arwyddion i ddweud fod rhai mewn lle er mwyn trio atal y rhai sydd yn difrodi'r ffens.*<br><br>*Dwi ddim ar hyn o bryd yn meddwl fod llawer y gallwn ni wneud.*<br><br>*Diolch* |
| **5.** | | **Cyfranogiad y Cyhoedd**<br>Derbyn cyflwyniad gan Gwenlli Evans ar ymgyrch y Wynnes Arms. |
| **6.** | | **Cyflwyniad Prosiect Bro**<br>Derbyn cyflwyniad Richard Roberts ar Brosiect Bro. |
| **7.** | | **Cofnodion Derbyn a chadarnhau Cofnodion**<br>Cofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor – 13eg Ionawr 2025, copi ynghlwm. |
| **8.** | | **Ceisiadau am Gymorth Ariannol**<br>i. Ystyried cais am gymorth ariannol gan Gwmni Bara Caws, copi o'r dogfennau ynghlwm.<br><br>ii. Ystyried cais am gymorth ariannol gan Glwb y Ddraig Goch, copi o'r dogfennau ynghlwm.<br><br>iii. Mae cais diwygiedig hefyd wedi dod mewn perthynas â Sbrint Stiniog, lle 'roedd anfoneb Ambiwlans Sant Ioan yn £62.80 sy'n llai na'r cais gwreiddiol o £150. Maent yn gofyn am gyfraniad ychwanegol o £150 tuag at y £300 a wariwyd ar luniaeth yng Nghaffi Mari ar gyfer cystadleuwyr ar y dydd. |
| **9.** | | **Swyddog Cefnogi Cymunedau**<br><br>Ystyried Ebost gan y Swyddog Cefnogi Cymunedau newydd, copi ynghlwm. |
| **10.** | | **Adfywio Cynhaliol** |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ystyried cais am gynrychiolydd ar grŵp Adfywio Cynhaliol a chais i ddefnyddio'r Siambr ar gyfer cyfarfodydd y grŵp bob rhyw 3 mis. |
| **11.** | | **Cau Gofal Dydd Cyngor Gwynedd**<br><br>Ystyried y sefyllfa mewn perthynas â phenderfyniad Cyngor Gwynedd i gau cyfleusterau gofal dydd. |
| **12.** | | **Ceisiadau Cynllunio**<br>Ystyried y ceisiadau Cynllunio canlynol:<br><br>i. **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**<br>Rhif Cais.: C24/1023/03/LL<br>Lleoliad: Y Llythyrdy Ffordd Glanypwll, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3SG<br>Bwriad: Newid defnydd presennol o Hen Swyddfa Post [A1] i Siop [A1] & Caffi/Bwyty (Bwyd a Diod) [A3]. Bwriad defnydd preswyl ar y Llawr Cyntaf [C3]. Adeiladu estyniad ochr i gyflawni hyn.<br><br>https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=getApplication&id=35961&language=cy<br><br>ii. **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**<br>Rhif Cais.: C24/0655/03/DT<br>Lleoliad: Bryn Bowydd Ffordd Dorfil, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3YN<br>Bwriad: Dymchwel garej bresennol a chodi garej concrid 'prefab'.<br><br>https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=getApplication&id=35980&language=cy<br><br>iii. **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**<br>Rhif Cais.: C24/0890/03/LL<br>Lleoliad: Garej Bowydd Ffordd Wynne, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3UH<br>Bwriad: Estyniad arfaethedig i modurdy masnachol presennol.<br><br>https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=getApplication&id=35987&language=cy |
| **13.** | | **Allt Goch, LlanFfestiniog**<br>Ystyried ymateb i'r Ebost a anfonwyd at Gyngor Gwynedd mewn perthynas ag Allt Goch:<br><br>*Cyfeiriaf at eich ymholiad parthed i gyffordd y B4391 gyda A496.*<br><br>*Rydym yn llwyr ddeall pryder eich etholwr parthed y gyffordd ganlynol. Mae'r gyffordd ganlynol wedi derbyn dipyn o sylw gan y swyddogion o'r Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae pob astudiaeth neu farn broffesiynol wedi dod yn ôl gyda'r casgliad y dylai cadw'r dyluniad presennol.*<br><br>*Ar y ffordd, sef y A496 rhwng Maentwrog a Blaenau Ffestiniog, mae yna dros 23 o ddamweiniau wedi cael ei gofrestru yn y ddeg mlynedd diwethaf. Dros y blynyddoedd* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *hynny, mae'r gwasanaeth hwn wedi rhoi dipyn o sylw i'r ffordd drwy gyflwyno nifer o ymyrreithau yn y lleoliadau lle mae hanes o ddamweiniau.*<br><br>*Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, does yna ddim damwain wedi bod ar y gyffordd benodol hon sydd, maen siŵr, yn dipyn o syndod os ydym yn edrych ar ystadegau sy'n nodi bod yna 23 damwain ar y ffordd rhwng Maentwrog a Blaenau Ffestiniog yn ystod yr un cyfnod.*<br><br>*Os byddwn yn edrych ar yr opsiwn o oleuadau traffig, y tebygolrwydd yw na fyddai'n bosib cyflwyno'r mesur yn unol ar ganllawiau perthnasol oherwydd cymhlethdod y safle.*<br><br>*Hoffwn hefyd nodi, i ddenu'r lefel o fuddsoddiad i gyflwyno ymyrraeth byddai angen fod yn glir o ran beth yw'r allbynnau rydym yn ceisio ei gyflawni. Os byddwn yn cynnal asesiad o'r goleuadau gan ystyried y rhagdybiaeth uchod yna maen anochel y byddai casgliadau yn dangos y byddai gosod goleuadau yn cynyddu amser trafaelio a, gan nid oes yna ddamweiniau ar y ffordd, byddai ddim yn bosib cyflwyno fesuriad ar gyfer nodi beth fyddai'r allbynnau gwelliannau diogelwch. Os rhywbeth, mae yna risg uchel y byddai ddarpariaeth yn cynyddu'r nifer o ddamweiniau gan fod y lefel presennol o ddamweiniau yn ddim a trwy ragdybio y byddai ddim modd gosod y goleuadau yn unol ar ganllawiau perthnasol.*<br><br>*Felly, fel mae'r sefyllfa yn sefyll a'r hyn o bryd, ni fydd y gwasanaeth hwn yn buddsoddi pellach i edrych a'r datrysiadau i'r broblem sydd wedi dod i'n sylw. Er hynny, rydym yn llwyr ymwybodol o'r trafferthion mae rhai defnyddwyr yn ei gael i negodi'r gyffordd ganlynol a bydd y gwasanaeth yn nodi hynny ac yn rhoi sylw penodol i'r broblem os yw cyfle yn codi yn y dyfodol.*<br><br>*Yn gywir*<br><br>*Iwan ap Trefor*<br>*Rheolwr Traffig a Phrosiectau/ Traffic and Project Manager* |
| **14.** | | **Cinio Gŵyl Dewi**<br><br>Derbyn diweddariad ar Ginio Gwyl Dewi 2025. |
| **15.** | | **Gohebiaeth gan Siân Gwenllian, AS, ar sefydlu Ysgol Ddeintyddiaeth ym Mangor**<br>Ystyried yr ohebiaeth sydd ynghlwm. |
| **16.** | | **Problemau Parcio – Ysgol Maenofferen**<br>Diweddariad ar y sefyllfa |

Sioned Graham-Cameron
Clerc y Dref
DYDDIAD: 4ydd Chwefror 2025